Y teulu

Dyma deulu Jones, Bryn Celyn.




Fy enw i yw Megan.
Rwy'n 50 mlwydd oed, ac rwy'n nyrs.
Fi yw mam Siân a Dafydd.



Fy enw i yw Dafydd,
ac rwy'n ŵr i Elin.
Hana a Dylan yw
enwau ein plant ni.
Rwy'n 34 oed.



Siân yw fy enw i,
a fi yw mam Cai,
sy'n 5 oed.



Gwyn ydw i ac rwy'n 55 oed.
Fi yw tad-cu Hana, Dylan, Bethan,
Cai a Cadi.



Bethan ydw i, ac rwy'n
10 oed. Mae gen i un brawd
o'r enw Cai, ac un chwaer
o'r enw Cadi.
Gareth yw enw dad.

1. Helpa Dwli i ganfod pwy yw pwy drwy gwblhau'r goeden deuluol.



Megan yn briod â _____

Siân yn briod â _____ Elin yn briod â _____

_____ Cadi _____ Hana _____

2 a. Faint o blant sydd gan Dafydd ac Elin? _____

b. Faint o wyrion sydd gan Megan a Gwyn? _____

c. Pwy yw aelod hynaf y teulu? _____

ch. Pwy yw aelod ieuengaf y teulu _____

Efallai y gelli di roi tro ar wneud dy goeden deuluol dy hun.



DWLI'S HELP FOR PARENTS:

Here is the Jones Family, Bryn Celyn.

1 Help Dwli work out the relationship between the different members of the family by completing the family tree.

My name is Megan. I'm 50 years old, and I'm a nurse. I'm Siân and Elin's mother; My name is Dafydd and I'm Elin's husband. Our children are called Hana and Dylan. I'm 34 years old; My name is Siân, and I'm 5 year old Cai's mother; I'm Gwyn and I'm 55 years old. I'm a grandfather to Hana, Dylan, Bethan, Cai and Cadi; I'm Bethan and I'm 10 years old. I have a brother called Cai, and a sister called Cadi. Gareth is our father.

Answers: Megan is married to Gwyn; Siân is married to Gareth; Elin is married to Dafydd; Cadi is Bethan and Cai's sister; and Dylan is Hana's brother.

2. a. How many children do Dafydd and Elin have? (2); b. How many grandchildren do Megan and Gwyn have? (5); c. Who is the eldest member of the family? (Gwyn); ch. Who is the youngest member of the family? (Cai).

Maybe you can try to fill in your own family tree.

* Colour in the **Y teulu** star at the back of the book.



Lliwia'r seren â **Y teulu** arni yng nghefn y llyfr.*